



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# **Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2023/2024**

## Cynnwys

Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch.....	2
Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru.....	2
Ein rôl o ran rheoleiddio.....	3
Ariannu ein dull rheoleiddiol.....	3
Adolygiad strategol o godi tâl.....	4
Adolygiad blynyddol o daliadau.....	5
Ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2023/2024.....	5
Taliadau cais.....	6
Cyngor cyn gwneud cais.....	7
Taliadau cynhaliaeth blynyddol.....	7
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	8
Sut i ymateb.....	8
Diogelu data.....	8
Y camau nesaf.....	8
Atodiadau.....	9

## Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn ceisio eich barn a'ch safbwyntiau ar ein cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio o 1 Ebrill 2023 ymlaen fel y manylir yn y ddogfen hon a'r atodiadau ategol. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau codi tâl newydd, yr ydym yn bwriadu eu gweithredu o 1 Ebrill 2023, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

**Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am hanner dydd ddydd Gwener, 6 Ionawr 2023.**

## Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru ac i ddarparu gwell dyfodol i bawb. Credwn fod angen i ni ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu, gan ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

## Ein rôl o ran rheoleiddio

Mae pawb eisiau i'n hamgylchedd gael ei reoli a'i gynnal yn dda, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn fwy nag erioed, mae angen gwarchod ein hamgylchedd, lleihau effeithiau newid hinsawdd ac atal dirywiad cynefinoedd a bywyd gwyllt, ac mae newidiadau mewn polisïau ar bob lefel wedi adlewyrchu hyn.

Mae ein cylch gwaith yn eang ac yn cynnwys darparu ystod o wasanaethau rheoleiddiol. Mae ein dull rheoleiddio yno i ddarparu safon ofynnol fel sylfaen i atal niwed amgylcheddol. Mae ein gwaith i asesu a rhoi trwyddedau ag amodau i ddiogelu'r amgylchedd, ac i fonitro sut y mae safonau deddfwriaethol yn cael eu bodloni a sut y cydymffurfir â hwy, yn allweddol i gefnogi amgylchedd o ansawdd uchel.

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu risgiau blaenoriaeth i'r amgylchedd. Mae darparu a defnyddio tystiolaeth yn sail i'r penderfyniadau a wnawn ar draws y sefydliad a'n hymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Mae ein dull rheoleiddiol yn cyd-fynd â'r meysydd lle mae'r risg fwyaf fel y'i pennir gan y gweithgaredd sy'n cael ei wneud a'r lleoliad a gynigir. Rydym yn helpu i sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn parhau i gydymffurfio ac yn cymryd camau pan fydd amodau trwydded yn cael eu torri. Mae ein gweithgareddau rheoleiddio yn helpu i sicrhau chwarae teg lle nad yw busnesau a reolir yn dda yn cael eu tanseilio gan weithredwyr gwael yn yr un sector, ac yn annog arloesedd.

## Ariannu ein dull rheoleiddiol

Ariennir ein cyfrifoldebau rheoleiddio naill ai gan grantiau gan Lywodraeth Cymru (Cymorth Grant) neu gan daliadau a godir ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio, lle mae gennym bwerau cyfreithiol i godi tâl.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn inni, o dan [Reoli Arian Cyhoeddus Cymru](#)<sup>1</sup>, i adennill costau gwasanaethau rheoleiddio yn llawn oddi wrth y rhai rydym yn eu rheoleiddio, yn hytrach na thrwy drethiant cyffredinol. Mae angen inni hefyd sicrhau mai dim ond i ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddio hwnnw y defnyddir incwm o ffioedd a thaliadau.

Mae faint o adnoddau ac ymdrech reoleiddiol a gymhwyswn i weithgaredd yn cael ei ysgogi gan ffactorau a throthwyon a nodir mewn deddfwriaeth a pholisi. Mae hyn yn arwain at ystod o fecanweithiau rheoli gwahanol gan gynnwys gwaharddiadau, eithriadau, datganiadau sefyllfa risg isel, trwyddedau, caniatadau, cydsyniadau a thrwyddedau. Bydd yr hierarchaeth hon o offer risg a rheoleiddio yn amrywio rhwng trefniadau. Po fwyaf yw'r risg amgylcheddol, y mwyaf o'n hadnoddau sy'n cael eu defnyddio a'r mwyaf yw'r gost i'w hadennill drwy daliadau.

Rydym yn codi tâl am ein gweithgareddau trwyddedu a chydymffurfio yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', sy'n golygu mai ymgeiswyr sy'n gyfrifol am dalu'r gost o benderfynu ar

---

<sup>1</sup> [Reoli Arian Cyhoeddus Cymru | LLYW.CYMRU](#)

gais am drwydded ac asesu eu cydymffurfedd â'r amodau diogelu. Mae'r dull hwn yn unol ag Adran 3 o'r Cod Rheoleiddwyr<sup>2</sup> a'n Hegwyddorion Rheoleiddio<sup>3</sup>.

Ariennir gwaith gorfodi gan arian Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Telir unrhyw ddirwyon a roddir gan y Llysoedd i Drysorlys EF.

Mae'r ffioedd a'r taliadau a godir i dalu costau ein gweithgareddau rheoleiddio yn cyfrif am tua 16% o gyfanswm ein cyllid ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, nid yw'r swm yr ydym yn ei godi ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio am y gwasanaethau a ddarparwn wedi newid yn sylfaenol ers sefydlu CNC ym mis Ebrill 2013. Mewn llawer o achosion nid oedd ein taliadau etifeddol wedi cael eu hadolygu ers sawl blwyddyn ymlaen llaw. Mae ein cynlluniau codi tâl cyfredol i'w gweld ar ein gwefan<sup>4</sup>.

## Adolygiad strategol o godi tâl

Fel rhan o'n hymrwymiad i asesu ein darpariaeth gwasanaeth yn barhaus, adolygu ein taliadau ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio, a sicrhau bod prosesau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, comisiynwyd Adolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl gennym. Nod y rhaglen hon yw datblygu cynllun codi tâl sy'n codi'r taliadau cywir ar ein gweithgareddau, drwy'r mecanweithiau cywir, ac sy'n dyrannu'r staff a'r adnoddau ariannol cywir i'r rhannau cywir o'r sefydliad.

Er mwyn cyflawni ein dull rheoleiddio a'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer amgylchedd ac adferiad gwyrdd Cymru, mae ein Hadolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl wedi ystyried yr holl swyddogaethau, gan gynnwys y gweithgareddau rheoleiddio hynny na chodir tâl amdanynt yn hanesyddol. Nid ydym wedi cynnal adolygiad ar y raddfa hon o'r blaen.

Mae ein rhaglen wedi cael ei harwain gan ein hegwyddorion codi tâl canlynol:

- tryloywder ein penderfyniadau wrth godi taliadau
- osgoi traws-gymhorthdal rhwng trefniadau
- darparu gorwelion cynllunio tymor hwy lle bynnag y bo'n bosibl
- osgoi cylchoedd o leihau wedyn codi taliadau drwy reoli ein gwargedion a'n diffygion yn weithredol
- cadw taliadau mor isel â phosibl drwy hybu gwell effeithlonrwydd yn barhaus
- peidio ag elwa o dalwyr taliadau
- bod yn annibynnol ar gymorthdaliadau trethdalwyr.

Mae ein rhaglen Adolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl wedi canolbwyntio ar newidiadau i'r ffioedd a'r taliadau sy'n gysylltiedig â cheisiadau am drwyddedau newydd a thrwyddedau diwygiedig. Mae ein hadolygiad o gostau cyflenwi ar gyfer ein gwasanaethau trwyddedu yn dangos tangyflawniad ar draws y rhan fwyaf o drefniadau, gyda'n ffioedd a'n taliadau rheoleiddio yn methu ag adennill costau llawn o waith penderfynu ar geisiadau am drwyddedau. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at ddiffyg blynyddol o £3 miliwn yn ein

<sup>2</sup> [Cod Rheoleiddwyr \(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk)

<sup>3</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein Hegwyddorion Rheoliadol](#)

<sup>4</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein taliadau](#)

darpariaeth o weithgareddau trwyddedu gan mai dim ond 24% o'n costau sy'n cael eu hadennill. Cyflawnir hyn ar hyn o bryd drwy leihau ein gwasanaeth mewn meysydd eraill o'n gwaith. Er ein bod wedi newid rhai o'n prosesau i fod yn fwy effeithlon, nid yw hyn yn ddigon i gydbwysu costau llawn y cyflawni.

Mae'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r angen am gynyddu taliadau a chyflwyno taliadau newydd. Os na fyddwn yn gwneud newidiadau sylweddol, bydd diffyg adnoddau, gostyngiad yn ein sylfaen sgiliau technegol a dibyniaeth barhaus ar arian cyhoeddus yn parhau.

## Adolygiad blynyddol o daliadau

Yn ogystal â'r dadansoddiad manwl o'n costau trwyddedu o fewn ein rhaglen Adolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl, rydym ni hefyd wedi cynnal asesiad lefel uchel o'n taliadau cynhaliaeth blynyddol, sef y ffioedd blynyddol rydym yn eu codi ar weithredwyr i adennill costau monitro ac asesu eu cydymffurfedd ag amodau trwydded.

Am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 ymlaen, rydym yn cynnig cynnal ein taliadau cynhaliaeth blynyddol presennol cymaint â phosibl. Fodd bynnag, mae angen inni wneud addasiadau i rai taliadau er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli pwysau chwyddiant yn briodol a'r sefyllfa o warged a diffyg a ragwelir. Gwneir y cynigion hyn yn unol â [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#), rheolau Trysorlys EF a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol.

## Ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2023/2024

Rydym yn cynnig cynyddu'r arian a gasglwn o'n cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses o adennill costau'n llawn, er mwyn cyflawni ein dull rheoleiddio a'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer amgylchedd ac adferiad gwyrdd Cymru.

Ni fyddai'n briodol ceisio Cymorth Grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio a ddylai gael eu cwmpasu gan daliadau ac ni allwn groes-gymorthdaluo o ffrydiau incwm eraill. Wrth gynnig ffioedd a thaliadau newydd, rydym yn dilyn y gofynion a nodir yn [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#), gan sicrhau mai dim ond costau cymwys sy'n cael eu cynnwys o fewn cyfrifiadau.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai sectorau busnes, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch. Fodd bynnag, byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses o adennill costau'n llawn yn golygu goblygiadau sylweddol o ran adnoddau, gostyngiad yn ein sylfaen sgiliau technegol ac, felly, anallu i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae ein cynigion codi tâl wedi'u datblygu drwy broses o ymchwil gefndir helaeth a thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr eraill y DU.

Rydym yn cyfarfod yn aml ac yn trafod ein cynigion gyda'r Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau, sy'n cynnwys rhanddeiliaid o sefydliadau masnach a chynrychioliadol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu ein strategaeth a chynlluniau codi tâl. Hoffem ddiolch i'r rhai yn y grŵp am eu hymrwymiad i gynrychioli safbwyntiau eu haelodau ac am barhau i weithio gyda ni yn y ffordd hon. Rydym yn adolygu aelodaeth y grŵp hwn yn flynyddol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i gael aelodau perthnasol i'r newidiadau arfaethedig.

## Taliadau cais

Mae ein hymgyngoriad yn ymdrin â'r meysydd canlynol lle'r ydym yn bwriadu newid neu gyflwyno taliadau:

- Trwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gan gynnwys: rheoli gwastraff, prosesau diwydiannol, gollyngiadau o elifion dŵr wedi'u trin i'r amgylchedd dŵr, sylweddau ymbelydrol anniwclear, gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol. Rydym yn derbyn 1,700 o geisiadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol y flwyddyn ar gyfartaledd
- Trwyddedau tynnu dŵr a chronni dŵr. Rydym yn derbyn 177 o geisiadau y flwyddyn ar gyfartaledd
- Trwyddedau ar gyfer rhywogaethau. Rydym yn prosesu 1,800 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae ein cynigion yn cynnwys cyflwyno hepgoriadau ar gyfer rhai ceisiadau am drwyddedau rhywogaethau
- Cofrestriadau cronfeydd dŵr.

Mae'r atodiadau ategol yn cynnwys manylion y cynigion taliadau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn a rhestr gyfunol o'r holl daliadau.

Ategir ein taliadau arfaethedig gan y dystiolaeth a gyflwynwyd o'n gweithgareddau gwaith. Fe wnaethom adolygu a herio'r amser y mae'n ei gymryd ar gyfer pob rhan o broses penderfynu ar drwydded o gofnodi cais i'r asesiad, adolygiad gan gymheiriaid a chyhoeddi'r drwydded. Roedd hyn yn caniatáu i fodolau costau gael eu cynhyrchu ar gyfer pob math o drwydded. Lle mae ein hadolygiad wedi nodi effeithlonrwydd neu eu rhoi ar waith eisoes yn ein cynigion, maent yn fodd i leihau lefel y cynnydd yn hytrach nag arwain at unrhyw ostyngiad yn lefel y taliadau a gynhigiwyd. Rydym wedi ceisio cadw taliadau mor isel â phosibl wrth fynd i'r afael â'r diffyg.

Yn ogystal â thaliadau sy'n parhau i gael eu gweithredu o dan y ddeddfwriaeth bresennol, rydym yn cynnig cyflwyno rhai taliadau newydd gan ddefnyddio pwerau o dan Erthygl 12A [Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru \(Swyddogaethau\) 2013](#)<sup>5</sup>. Mae hyn yn ein galluogi i godi tâl am y nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau a ddarparwn. Lle cawn ein hatal rhag adennill costau ar gyfer rhai dyletswyddau rheoleiddio gan rwystrau polisi a deddfwriaethol, bydd y gweithgareddau hyn yn parhau i gael eu hariannu gan arian Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Drwy addasu taliadau presennol a chyflwyno taliadau newydd lle nad oes cynllun yn bodoli ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd ein newidiadau arfaethedig yn mynd i'r afael â'r

<sup>5</sup> [Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru \(Swyddogaethau\) 2013 \(legislation.gov.uk\)](#)

diffyg a amlinellwyd uchod, os bydd nifer y ceisiadau yn aros yr un fath. Bydd hyn yn sicrhau bod ein gwasanaethau rheoleiddio yn cael eu talu gan y rhai sy'n eu defnyddio ac nid gan y trethdalwr neu dalwyr taliadau eraill.

## Cyngor cyn gwneud cais

Rydym yn darparu gwasanaeth cyn ymgeisio sylfaenol ar gyfer cyngor, ar rai mathau o hawlenni a thrwyddedau<sup>6</sup>, i helpu cwsmeriaid i ddeall pa ganiatadau sydd eu hangen arnynt a sut i wneud cais amdanynt. Gall hyn gynnwys cyfeirio at ffurflenni neu ffynonellau gwybodaeth perthnasol sydd eu hangen i baratoi cais o safon. Gall hefyd gynnwys cyngor ar ofynion cyfreithiol, sut i nodi risgiau amgylcheddol a ble i ddod o hyd i ganllawiau arferion gorau sefydledig.

Rydym yn cynnig newidiadau i'r ffordd yr ydym yn diffinio ac yn cynnig cyngor cyn ymgeisio sylfaenol ar gyfer trwyddedau yr ydym yn codi tâl amdanynt, drwy ffurfioli ein dull gweithredu at ddarparu gwasanaeth cyfeirio yn unig. Gallai helpu ymgeiswyr i gwblhau adroddiadau neu gynnal asesiadau o wybodaeth yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio benderfynu ymlaen llaw neu niweidio ein rôl wrth benderfynu ar gais am drwydded. Rydym yn cydnabod bod hygyrchedd ac argaeledd canllawiau cyfeirio yn amrywio ar draws ein gweithgareddau rheoleiddio, felly darperir gwybodaeth bellach yn yr atodiadau penodol ar gyfer pob maes rheoleiddio.

Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar y cyngor pwrpasol y gall ymgeiswyr ofyn amdano drwy ein Gwasanaeth Cynghori yn ôl Disgresiwn<sup>7</sup>, a godir tâl amdano gan ddefnyddio cyfradd safonol fesul awr.

## Taliadau cynhaliaeth blynyddol

Mae ein hymgyngoriad yn ymdrin â'r meysydd canlynol lle rydym yn cynnig newid taliadau cynhaliaeth blynyddol i adlewyrchu pwysau chwyddiant a'r sefyllfa o ddiffyg a ragwelir. Mae Atodiad 11 yn manylu ar y newidiadau rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith ar gyfer 2023/2024.

- Costau Uned Safonol Tynnu Dŵr
- Taliadau cynhaliaeth Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Ansawdd Dŵr
- Taliadau cynhaliaeth Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Anniwclear
- Taliadau cynhaliaeth Cydymffurfedd Cronfeydd Dŵr
- Taliadau cynhaliaeth Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd
- Taliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)
- Taliadau cynhaliaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU
- Taliadau cynhaliaeth Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau

Bydd unrhyw ffioedd a thaliadau rheoleiddio nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn parhau ar waith ar y cyfraddau presennol ar gyfer 2023/2024.

<sup>6</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau a chaniatadau](#)

<sup>7</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein gwasanaeth i ddatblygwyr](#)

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

Rydym eisiau eich barn a'ch sylwadau ar ein cynigion ar gyfer ein taliadau rheoleiddiol o 1 Ebrill 2023, fel y nodir yn yr atodiadau. Mae rhagor o wybodaeth am ein modelu costau ar gael ar gais. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau terfynol, yr ydym yn bwriadu eu gweithredu o 1 Ebrill 2023, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

**Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am hanner dydd ddydd Gwener, 6 Ionawr 2023.**

Mae ein hymgyngoriad ar gael ar ein gwefan:

<https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/sroc/adolygiadstrategologodita>

## Diogelu data

Bydd unrhyw ymatebion rydych yn eu hanfon atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad. Gallai aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd eu gweld i'w helpu i gynllunio ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Bwriadwn gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallem gyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw'r ymatebydd a rhan o'i gyfeiriad eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn gywir. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni wrth nodi'ch ymateb ac fe wnawn eu tynnu oddi wrth ddeunydd a gyhoeddir.

Mae'n dal i fod yn bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau a dynnwyd gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn meddwl y bydd hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth a gedwir gan sawl corff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein caniatáu i ddal gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn i weld yr wybodaeth rydym wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ynteu beidio. Os oes rhywun yn gofyn i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn iddynt beidio â chael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn i ofyn am ei farn cyn penderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr holl sylwadau (heblaw am wybodaeth bersonol fel y nodwyd uchod) a'n hymatebion ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan. Os ydych yn ymateb gyda chyfeiriad e-bost, gwnawn gydnabod eich ymateb a gwnawn eich hysbysu pan fydd y crynodeb o ymatebion wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.



# Atodiadau

Atodiad 1 – Deddfwriaeth a sail gyfreithiol ar gyfer Adolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl

Atodiad 2 – Yr holl daliadau cyfredol ac arfaethedig

Atodiad 3 – Rheoleiddio diwydiant

Atodiad 4 – Cronfeydd dŵr

Atodiad 5 – Gwastraff ar y safle

Atodiad 6 – Trwyddedu rhywogaethau

Atodiad 7 – Ansawdd dŵr

Atodiad 8 – Adnoddau dŵr

Atodiad 9 – Rhestr o gwestiynau ymgynghori

Atodiad 10 – Rhestr termau

Atodiad 11 – Adolygiad blynyddol o daliadau cynhaliaeth